

Grant Gymunedol Celfyddydol Anna Evans
c/o Stephen Griffiths
2 Minffordd
Penrhyncoch
Aberystwyth
SY23 3EP



FOR IMMEDIATE RELEASE

Dechreuon ni godi arian er cof am Anna y llynedd er mwyn caniatáu cyllid i artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol lleol i barhau â'r gwaith a wnaeth Anna gyda'r gymuned. Fe wnaethon ni osod nod o £5000 i ddechrau ond cawson ein llethu pan wnaethon ni fwy na dyblu ein targed. Dangosodd y gefnogaeth cawsom gan fusnesau ac unigolion lleol pa mor bwysig, nid yn unig oedd Anna, ond hefyd y gwaith yr oedd yn ei wneud.

Rydym bellach mewn sefyllfa i agor ceisiadau am Grant Gymunedol Celfyddydol Anna Evans i unrhyw artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol lleol sydd gyda phrosiectau mewn golwg rhwng Mai 2021 a Mawrth 2022, ac sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu a chynnwys cymuned Ceredigion mewn unrhyw faes o'r celfyddydau. Mae swm o £5,000 ar gael ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni cais yn ogystal â'r meini prawf y byddwn ni'n eu defnyddio i werthuso'r cymwysiadau ar ein gwefan www.annacelf.co.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r grant, e-bostiwch contact@annacelf.co.uk

“do the next interesting thing” Anna Evans

Cadeirydd: Huw Evans
Ymddiriedolwyr: Elizabeth Fenwick, Cathryn Morgan, William Morgan, Lowri Evans, Llew Evans,
Stephen Griffiths